

Ebrill, glas ei
wybren

WILIA



RHIF 444 EBRILL 2022
50 C

PAPUR MISOL
CYMRAEG ABERTAWE

Pêl droed trwy'r Gymraeg, diolch i Glwb Dinas Abertawe a'r Fenter Iaith

SWANSEA CITY AFC FOUNDATION YN CYHOEDDI SESIYNAU "PL KICKS" IAITH GYMRAEG

Mae'r Swansea City AFC Foundation yn falch i gyhoeddi sesiynau Premier League Kicks iaith Gymraeg mewn cydweithrediad â Menter Iaith Abertawe ac Ysgol Gyfun Gŵyr.

Mae'r cynllun Premier League Kicks



yn rhaglen genedlaethol sy'n defnyddio pŵer pêl-droed a chwaraeon i ymgysylltu'n rheolaidd â phlant a phobl ifanc o bob cefndir a gallu trwy bêl-droed, chwaraeon a datblygiad personol. Mae'r rhaglen yn cynnig dylanwad cadarnhaol y gellir ymddiried ynddo mewn ardaloedd ag angen uchel.

Mae'r prosiect yn cyflwyno sesiynau wythnosol am ddim, gan roi cyfleoedd i bobl ifanc rhwng wyth ac 16 oed ar draws De-orllewin Cymru chwarae mewn gweithgareddau pêl-droed, tra bod pobl ifanc 16 i 18 oed mewn addysg bellach yn cael cyfle i ddod yn swyddogion neu hyfforddwyr gwirfoddol.

Bydd ein sesiynau Cymraeg yn ceisio annog pobl ifanc i gyfathrebu yn y Gymraeg drwy bêl-droed, gyda'r sesiynau cychwynnol yma ond ar gael i ysgolion clwstwr Ysgol Gyfun Gŵyr. Dechreuodd y sesiynau'n dechrau ar yr 28ain o Fawrth.

"Rydym yn gyffrous iawn i allu lansio'r cynllun newydd hwn mewn partneriaeth â'r Swans Foundation ac Ysgol Gyfun Gŵyr," meddai Tomos Jones o Fenter Iaith Abertawe.

"Ein gwaith yw hyrwyddo'r defnydd a'r mwynhad o'r Gymraeg yn ardal Abertawe, ac mae'n wych gwelod fod y clwb pêl-droed mor gefnogol o'r iaith.

"I'r disgyblion chweched dosbarth sydd wedi gwirfoddoli ar gyfer y cynllun hwn, bydd cyfle i ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyddestun chwaraeon wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau hyfforddi a mentora'r disgyblion iau.

"Mae eu galluogi i ymgysylltu â'r iaith fel hyn yn bwysig iawn, ac mae'r posibilrwydd o waith iaith Gymraeg sy'n talu yn y dyfodol wrth i'r cynllun ddatblygu yn rhywbeth sy'n hanfodol o bwysig i bobl ifanc yn ardal Abertawe.

"Bydd hefyd yn rhoi cyfle i'r disgyblion iau gymdeithasu ar y cae pêl-droed drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at ddechrau arni."

"Fel sefydliad rydym yn falch o fod yn lansio ein sesiwn PL Kicks gyntaf yn yr iaith Gymraeg mewn partneriaeth â Menter Iaith Abertawe ac Ysgol Gyfun Gŵyr," ychwanegodd Graham Smith, arweinydd cydraddoldeb, **PARHAD AR DUDALEN 2**

FOUNDATION

PL KICKS

SESIYNAU PÊL-DROED IAITH GYMRAEG

Annog pobl ifanc i gyfathrebu yn y Gymraeg trwy bêl-droed.

Dydd	Lleoliad	Amser	Oedranau
Llun	Ysgol Gyfun Gŵyr	3:30-4:30pm 4:30-5:30pm	12-16 8-11

Archebwch ar-lein i gofrestru:
form.jotform.com/SwansFdn/OyfunGwyr

Dim ond ar gyfer ysgolion clwstwr Ysgol Gyfun Gŵyr

Premier League Kicks

menter iaith abertawe



Brwdfrydedd a Pharodrwydd gan Rob Evans

Mae'r gwanwyn ar y trothwy ac yn amser i ni dynnu'r dodrefn ardd allan o'r sied. A fydden nhw'n gwneud y tro am flwyddyn arall tybed? Hawdd iawn yw cael dodrefn newydd cyn belled â bod arian yn y banc. Ond mae rhai pethau gwerthfawr sy ddim ar gael ar y stryd fawr. Beth am ein hiaith annwyl? Beth sydd yn mynd ymlaen yn eich cymuned chi? Ydy'r capeli a'r eglwysi yn llawn bob dydd Sul? Beth am eich cymdeithasau? Taflwch eich meddwl yn ôl at

ddyddiau eich plentynod, a ydy'r Gymraeg mor gryf erbyn hyn? Na, mae popeth wedi newid. Mae'r Gymraeg dan fygythiad.

Ond does dim rhaid i ni boeni achos erbyn 2050 bydd miliwn o siaradwyr Cymraeg yn ein gwlad. Wir? Dim ond os ydym yn barod i droi'r sefyllfa. Rŵan - nid yfory, ond rŵan!

Ar ddydd Sadwrn olaf mis Chwefror roedd Cymdeithas Edward Llwyd yn cerdded yn ardal Cefn Onn ar gyrion Caerdydd. [Gweler y llun o Barc Cefn Onn.] Roedd 22 ar y daith ond 8 ohonyn nhw'n ddysgwyr. Meddyliwch am hynny, roedd cael y dysgwyr efo ni wedi golygu bod ein nifer wedi chwyddo 50%.

Doedden nhw ddim yn cerdded ar wahân chwaith, roedden ni i gyd yn sgwrsio'n hawdd efo'n gilydd. Peth pwysig arall i'w nodi yw bod nhw i gyd yn iau na ni. Mae hynny'n bwysig er mwyn sicrhau dyfodol i'n cymdeithas, nid bod dyfodol Cymdeithas Edward

Llwyd mewn peryg o gwbl, wrth gwrs.

Roedd pawb wedi elwa, roedd ein nifer wedi chwyddo o 14 i 22 ac roedd 8 o ddysgwyr wedi cael diwr-

nod o siarad yn naturiol efo ffrindiau newydd. Roedd pawb wrth eu boddau! Gyrrais adref efo gwên fawr ar fy wyneb. A'r bore wedyn ces i neges oddi wrth un o'r dysgwyr i ddweud faint oedd hi wedi mwynhau'r daith a pha mor gyfeillgar oedd bawb.

Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau nos trwy Gymru gyfan, ac maen nhw'n hawdd i gyrraedd, does dim ond rhaid i chi gael gair efo'ch tiwtor lleol. Os nad yw dysgwyr yn cyrraedd ein cymdeithas erbyn diwedd eu cyrsiau bydden nhw ar goll i'r iaith. Gwastraff cyfle i ni a gwastad amser hir o ddysgu iddyn nhw. Does neb eisiau hynny.

Fel unigolyn allwch chi baru efo un ohonyn nhw, neu fel cymdeithas allech chi roi gwahoddiad i'ch cylch. Un peth byddech yn sylwi yn fuan yw pa mor frwdfrydig ydyn nhw a pha mor barod maen nhw i gyfrannu. Mae ein cymunedau yn dioddef a'r pwysau ar yr iaith yn cynyddu. Os allwn ni gael hanner o'r dysgwyr i mewn i'n cymdeithas, a gwneud hynny pob blwyddyn allwn ni ddatrys problem yr iaith yn fuan iawn.

Rŵan, pwy yw eich tiwtor lleol? Am fwy o wybodaeth am y cynllun paru cysylltwch â hel-en.prosser@dysgucymraeg.cymru

YR URDD YN CYNNIG LLOCHES

Mae Urdd Go-baith Cymru wedi'i ganmol am ddarparu rhaglen "arloesol" 5 mis i 113 o ffoaduriaid o Afghanistan oedd yn chwilio am loches, a'r mudiad bellach yn trafod y math o gefnogaeth gelwir ei gynnig i ffoaduriaid o'r Wcráin.

Ar ôl i'r Taliban gipio grym yn Afghanistan ym mis Awst 2021, fe wnaeth y mudiad ieuencid estyn allan a chynnig llety a chymorth yn ei wersyll yng Nghaerdydd i 20 o deuluoedd (cyfanswm o 113 o ffoaduriaid), gyda'r rhan fwyaf o'r rheiny yn blant a phobl ifanc.

Bu i'r dull 'Tîm Cymru' sicrhau bod yr



Urdd yn cydweithio'n agos gyda phartneriaid fel Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Tai Taf, Cytûn a mudiadau cymorth i ffoaduriaid wrth ymateb yn strategol i'r sefyllfa yn Afghanistan a sicrhau y gall Cymru wireddu ei gweledigaeth

fel Cenedl Noddfa.

Yn ogystal â chynnig llety, chwaraeodd yr Urdd a'i rwydwaith o bartneriaid a gwirfoddolwyr rôl allweddol yn yr adsefydlu drwy gynllunio rhaglen o weithgareddau i gefnogi ac ymgysylltu â'r teuluoedd. 5 mis oedd hyd y prosiect ac mae'n brawf o sut gall y "ffordd Gymreig" o gefnogi ffoaduriaid

gyflawni canlyniadau gwell na'r model traddodiadol a ddefnyddir mewn manau eraill.

Trefnodd yr Urdd weithgareddau dyddiol i'r plant, oedd yn amrywio o wersi nofio i sesiynau chwaraeon a dawnsio, a gweithdai yng nghwmni gwirfoddolwyr lleol, gan gynnwys disgyblion cheched dosbarth Ysgol Plasmawr. Roedd y gweithgareddau hefyd yn cynnig seibiant hollbwysig i'r rhieni. Trefnwyd grwpiau cymorth, gweithdai a gweithgareddau wythnosol ar gyfer yr oedolion yn ogystal, o wersi iaith a gweithdai busnes i gemau criced a phêl-droed 5-bob-ochr.

Bu cefnogaeth partneriaid amrywio a haelioni'r cyhoedd i gronfa JustGiving y prosiect hefyd yn gymorth i sicrhau bod y teuluoedd wedi mwynhau sawl trip i atyniadau lleol ac wedi gallu mynychu nifer o gemau pêl-droed a rygbi cenedlaethol.

I DUDALEN 4 >



Annwyl Gyfaill,

Ydych chi'n siarad iaith babi?

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Mudiad Meithrin yn galw ar bobl o bob oed i rannu'r geiriau arbennig maen nhw'n eu defnyddio wrth 'siarad babi' er mwyn gallu creu casgliad o ymadroddion a geiriau 'babi' Cymraeg, a hynny am y tro cyntaf erioed.

'Parentese' ydy'r term swyddogol am siarad babi. Mae elfennau o 'parentese' yn cynnwys arafu tempo, defnyddio goslef llais uwch, cynnwys seibiau i annog ymateb yn ogystal â defnyddio geirfa bwrpasol ac ystumiau na fyddwn fel arfer yn defnyddio gyda phlant hyn nac oedolion, megis 'bow-wow', 'beibeis' neu 'ych-a-pych'.

Mae'r geiriau hyn yn gallu amrywio o ardal i ardal ac o deulu i deulu, ond y gobaith yw y bydd modd creu adnoddau i ddatblygu sgiliau a hyder rhieni a gofalwyr sy'n dysgu Cymraeg, ac arweinwyr grwpiau megis Cymraeg i Blant, Clwb Cwtsh a chylchoedd Ti a Fi, wrth siarad babi yn Gymraeg. Mae'r fenter yn rhan o brosiect 'Cymraeg yn y Cartref' y Ganolfan Genedlaethol, sy'n

darparu cyrsiau ac adnoddau wedi'u teulwra ar gyfer rhieni a gofalwyr. Dona Lewis yw Dirprwy Brif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gyda chyfrifoldeb dros y cynllun yma.

Dywedodd, "Mae'r prosiect yma – y

cyntaf o'i fath yn y Gymraeg - yn gyfle gwych i gasglu ynghyd yr holl eiriau babi Cymraeg sy'n cael eu defnyddio gan deuluoedd ledled

Cymru a thu hwnt. Byddwn yn rhannu'r eirfa arbennig honno gyda dysgwyr sy'n rhieni neu'n ofalwyr yn ogystal â gweithwyr yn y sector Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar Cymraeg."

Meddai Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin, "Rydym felly eisiau casglu cynifer o eiriau ac ymadroddion ag y gallwn, fel bod gennym ddigon o ddeunydd i weithio gydag ef i greu'r adnoddau."

Mae gan Adran Gwyddorau Addysg Prifysgol Bangor ddiddordeb mawr yn y cynllun, ac mae'r Athro Enlli Thomas, sy'n arbenigwr ar gaffael iaith plant bach, wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ers y dechrau.

Mae mwy o fanylion am sut y gallwch gyfrannu geiriau ar gyfryngau cymdeithasol a gwefan Mudiad Meithrin.

Diolch yn fawr, Arddun Rhiannon Swyddog Cyfathrebu



ROBAT ARWYN YN NHREFORYS

Cymdeithas Gymraeg Treforys a'r Cylch:

Roedd ein cyfarfod rhithiol ym mis Mawrth yn cynnig profiad newydd i'r aelodau. Y cerddor a chyfansoddwr Robat Arwyn oedd ein gwestai ac roedd yn ymuno â ni yn Nhreforys o'i gartref yn Ruthin. Cyflwynodd a chanodd nifer o'i ganeuon poblogaidd gan adrodd ychydig am hanes cyfansoddi'r caneuon a'r ymateb a dderbyniodd iddynt. Cydweithredodd gyda Chwmni Theatr Maldwyn a'r Eisteddfod Genedlaethol wrth greu Sioeau Cerdd a chyfansoddodd gerddoriaeth i eiriau Hywel Gwynfryn, Mererid Hopwood a beirdd eraill. Mae ganddo'r

ddawn o farddoni hefyd ac wedi creu caneuon cyfan. Y gân gyntaf a gyfansoddodd yw "Yfory," ac mewn ateb i gwestiwn dywedodd taw dyma ei ffefryn o'i holl gyfansoddiadau. Cafodd ei gân "Benedictus" ei recordio gan "The Priests," triawd o offeiriaid o'r Iwerddon. Cafodd y gân sylw rhyngwladol felly ond mae'n well ganddo recordiad Bryn Terfel a Rhys Meirion o'r gân. Noson wefreiddiol gan gyfathrebu heb ei ail!

Cydweithredwyd â Merched y Wawr I gyflwyno'r noson. Rydym yn ddyledus iawn i Jên Dafis

(MYW) a Matthew Jenkins am y gwaith technegol.

Mis nesaf Bev Lennon yw'n gwestai. Mae gwreiddiau teuluol Bev yn Jamaica, ond ganwyd hi yn Llundain. Ar ôl colli ei mam, symudodd i Gaerdydd.

Penderfynodd ddsygu'r Gymraeg gan fynd ymlaen at ddsygu'r iaithfel i ddisyblion yn ysgolion y ddinas. Fe fydd Robat Powell yn sgwrsio gyda hi ac mae croeso arbennig i ddsygwyr ymuno â ni ar y noson. Cynhelir y cyfarfod yn Festri'r Tabernacl, Treforys SA6 8BR am 7.00.y.h. nos Iau

O DUDALEN 3

Mae llythyr a ysgrifennwyd at yr Urdd gan y teuluoedd yn darllen: "Diolch am eich gwaith diflino i wneud ein teuluoedd yn hapus. Mae presenoldeb a chefnogaeth yr Urdd wastad wedi bod yn ffynhonnell o anogaeth a thawelwch meddwl i ni i gyd ac rydyn ni'n ei werthfawrogi'n fawr. Roeddech chi wrth ein hochr yn ein holl drafferthion ac roeddech chi yno gyda ni ym mhob eiliad o'n bywyd yma yng Nghymru. Diolch i'r Urdd am bopeth rydych chi wedi'i roi i ni ac am beidio â'n gadael ar ein pen ein hunain."

ELENA RUDDY YN ENNILL Y GADAIR

Gwelwyd gystadlu brwd yn yr Ei-



steddfod Ysgol Rithiol Ysgol Gwyr gyntaf eleni gyda Bl.7 yn cyflwyno'r gan 'Franz o Wlad Awstria', Bl.8 yn cyflwyno can bop Gymraeg a Bl.9 yn cyflwyno'r gerdd 'Glas'. Camp a hanner oedd dewis enillwyr i'r beirniaid, staff Menter Abertawe.

Elena Ruddy, disgybl ym Ml.12, gipiodd cadair yr Eisteddfod eleni am ei cherdd 'Rhyddid.' David Ingham (Bl.11) ac Elena (eto!) ddaeth yn ail gyda Alice Jewell (Bl.11). Llongyfarchiadau gwresog i'r tri. Diolch i'r cyn-ddisgybl, Meleri Williams, am feirniadu.

Rhyddid

Yn llachar lafnau arian
Y wawr, af i lawr at lan
y môr, a'r nos yn marw'n
y nen. Heibio i'r twyn hwn
Y sêr swatia'n dyner dan
Orwel Caswel, rôl cusan
Ola nos. Dan len y wawr
Anfad yw'r awyr enfawr.

Dŵr cynnes sy'n f'anwesu -
Mae mwynder i'r dyfnder tu
A'r heli dyrr hualau
Byw. Yn ehangder y bae,
Fe gaf, trwy ddihangfa gwyll,
Orffen bodolaeth gorffwyll.
Ddŵr Gwyr addawa'r gorriad,
A'r pen-draw a ddaw'n rhyddhad.

Elena Ruddy

Newyddion yr Adran Addysg Gorfforol

Yn ddiweddar, mae'r Adran Addysg Gorfforol a'r disgyblion wedi profi llwyddiannau diri.

Dewiswyd Joe Rees (Bl.13) i chwarae i dîm tan 18 ysgolion Cymru.

Mae Tom Roberts (Bl.9) ac Oli Lewis (Bl.10) wedi ennill lle yn nhîm Jiwdo Cymru.

Mae Amy Thomas (Bl.9) wedi ennill ei lle yn nhîm traws gwlad Cymru.

Llwyddodd Rosie Jones (Bl.11) i ennill lle yn nhîm hoci Cymru.

Mae Georgina Lillicrap a Megan Davies (Bl.11) wedi cael lle yn nhîm pêl-rwyd y Dreigiau.

Cyrhaeddodd tîm rygbi dan 18 yr Ysgol rownd derfynol cystadleuaeth 7 pob ochr Coleg Llanymddyfri gan guro sawl tîm profiadol.

Llwyddodd tîm pêldroed merched dan 15 yr ysgol i gyrraedd yr 8 olaf yng nghystadleuaeth Cymru.

Daeth tîm badminton bechgyn Bl.11 yn drydydd yng Nghymru mewn cystadleuaeth yn y Drenewydd.

Llwyddodd tîm badminton bechgyn Bl.7 ac 8 i ennill cystadleuaeth De

Cymru.

Daeth tîm badminton merched Bl.7 ac 8 yn ail yng nghystadleuaeth De Cymru.

Llwyddodd tîm badminton merched Bl.9 a 10 i ddoe yn drydydd yng nghystadleuaeth De Cymru.

Enillodd tîm rygbi bechgyn Bl.9 gystadleuaeth y Gweilch yn rownd gynderfynol Cwpan Cymru.

Cyrhaeddodd tîm rygbi bechgyn Bl.8 y rownd derfynol yng nghystadleuaeth y Gweilch yn rownd gynderfynol Cwpan Cymru.



Agoriad Swyddogol

Ar y pedwerydd ar hugain o Fawrth, agorwyd yr adeilad newydd sydd yn gartref i'r ffreutur a'r Adran Gymraeg yn ogystal a chaeau chwarae yr ysgol. Dyma brosiect cyffrous gwers £6.7 miliwn. A fydd yn fudd o bob disgybl. Croesawyd Rebecca Evans, Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y Cynulliad, i agor yr adeilad a'r cyfleusterau'n swyddogol. Braff oedd clywed cyfraniad y côr hefyd.



Record Byd a'r Urdd

Cyfrannodd ddisgyblion yr Ysgol i dorri record byd yr Urdd o..... Dyma ddisgyblion y ty gyda'u tystysgrifau.



JASMINE RUMMING YN SAETHWRAIG O FRI

Ar y 9fed o Chwefror deithiodd Jasmine Rumming, blwyddyn 8 i Firmingham i gystadlu dros yr ysgol yn ogystal â Chymru yng nghystadleuaeth Saethu 10medr Prydain. Cafodd Jasmine sgôr o 48.8 yn y ffeinal ac felly wedi llwyddo i ddod yn 8fed allan o Brydain Fawr. Dros y misoedd nesaf bydd Jasmine yn mynd ati i gystadlu eto dros i'w gwlad yma yng Nghymru.



Gwasanaeth Dydd Gwyl Dewi Bryntawe

Dyma wasanaeth Gwyl Dewi yr ysgol eleni. Diolch yn fawr i'r disgyblion am wirfoddoli i gymryd rhan. <https://youtu.be/6lrq2IY7gno>
Edrychwn ymlaen hefyd at ein Seremoni Gadeirio ar ddydd Gwyl Dewi. Cewch glywed am y buddugwyr a chael dolen i weld y seremoni yn y rhifyn nesaf o Wilia.

Alicea Knight, blwyddyn 12, yn chwarae rygbi i'r Gweilch dan 18

Mae Alicea wedi cael ei dewis i gynrychioli tim rygbi Y Gweilch - Menywod dan 18. Mae Alicea yn chwarae fel Prif gefnwr / ac ar yr asgell, ac wedi chwarae yn erbyn y Scarlets, y Dreigiau a'r Gleision ar ddau achlysur yn barod!

Pob lwc Alicea, mae'r adran yn falch iawn ohonot.

Diwrnod y Llyfr ym Mryn Tawe 2022

Bu tipyn o gyffro a bwrwlwm wrth ddathlu Diwrnod y Llyfr ym Mryn Tawe eleni. Ar chwarter



canmlwyddiant yr ŵyl ryngwladol bwysig hon - un sydd ar y naill law yn dathlu'r pleser a ddaw o ddarllen



ond un sydd hefyd yn dwyn sylw i'w angenrheidrwydd fel sgil ym myd y gwaith – fe drefnwyd cyfres o weithgareddau hwylus i'r dysgwyr eu mwynhau. Braff oedd cael croesawu siop lyfrau Ty Tawe i werthu ystod o lyfrau i blant yn Llyfrgell yr ysgol. Fe wnaeth hyn ddilyn gwasanaeth llwyddiannus a oedd yn rhannu fideo o nifer o'r athrawon yn rhannu pa lyfrau y byddent yn eu hargymell gyda'r disgyblion. Hyfryd hefyd oedd nodi i gynifer o ddisgyblion bl7, 8 a 9 gymryd rhan yng nghystadleuaeth helpa drysor Diwrnod y Llyfr eleni, gyda 8 disgybl lwcus yn ennill gwobr felys, a hwythau'n fuddugwyr yn y gy-

Wilia

Y mis yma yng ngofal
Heini Gruffudd

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.
Daliwch i anfon, ar gyfer rhifyn mis
Mai erbyn 20 Ebrill:
wilia@hotmail.co.uk
Mis Mai yng ngofal Steve Morris

Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru



GOLYGYDDION:
ELIN MEEK, STEVE MORRIS,
MARK STONELAKE, HEINI
GRUFFUDD

TRYSORYDD:
DYFRIG HARRIS

Marwolaeth David George

Cynhaliwyd angladd David George, un o ffigurau amlwg bywyd Cymraeg Abertawe, ar y 23ain o Fawrth.

Ganed David yn Nolgarrwg, a chael ei Addysg ym Mae Colwyn a Bangor, cyn mynd i Fryste i astudio milfeddygaeth.

Yn grwt roedd yn fabolgampwr o fri, gan chwarae pêl-droed a chael treial i Chelsea, rasio dros glwydi a gwneud naid bolyn.

Cafodd yrfa lwyddiannus fel milfeddyg, ond newidiodd i ail hyfforddi yn y gyfraith, yng Nghaer, a gweithio wedyn i sefydliadau cenedlaethol yn Llundain.

Yn ystod ei gyfnod cyntaf yn Abertawe bu'n gefnogwr selog i Blaidd Cymru, ac yn un o'r pwyllgor a sefydlodd Ty Tawe.

Symudodd i Lundain yn 1986, a byw yn Clapham.

Dychwelodd i Gymru gyda'i wraig Angela, ac ymddiddorodd ym myd y celfyddydau, an gynnwys cerddoriaeth a chelf yn arbennig, gan ennill gradd am ei draethawd ar yr artist Vincent Evans, a aned yn Ystalyfera, ac a ddarluniodd fywyd glowyr. Daeth yntau'n brif arholwr i Brifysgl Llundain a'r CWEB.

Agorodd David ei gartref yn Richmond Villas, Ffynhonne, adeg Eisteddfod Abertawe er mwyn codi arian i'r wyl a rhoi cyfle i bawb weld y gweithiau celf arbennig a orchuddiai furiau pob ystafell.

Roedd yn gasglwr o fri ac ymysg ei gasgliad roedd ysgrifbinnau a manion brenhinol, er ei fod wedi gwrthod sefyll i anthem y frenhines.

Roedd David yn gwmniwr ffraeth, yn gyfailli triw, ac yn un a feddai ar ddaliadau cadarn a phendant.

Mae'n gadael gwraig, Angela, mab Iestyn a llys-ferch, Sophie.

MYFYRWYR DRAMA – CYFLE I ENNILL YSGOLORIAETH

Rhag ofn bod unrhyw amheuaeth yn y cyfnod ansicr a hir hwn, mae Cymdeithas Drama Gymraeg Abertawe yn cynnig ysgoloriaeth eleni eto - £2,000 am flwyddyn i unigolion dros 18 oed (ar 1 Medi 2022) sydd am ddilyn cwrs yn un o ddisgyblaethau'r ddrama (perfformio, cyfarwyddo, sgriptio ac ati).

Ers sefydlu'r cynllun yn 2014, mae unarddeg o ysgoloriaethau wedi'u rhoi, gyda nifer o gyn-enillwyr bellach yn gwneud eu marc ym myd y ddrama a'r cyfryngau.

Gweinyddir y broses o wobrwyo'r ysgoloriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn



Rhai o bwyllgor cynnar Ty Tawe mewn digwyddiad codi arian yn Nhy'r Mae. David George yw'r pedwerydd o'r chwith. Ymysg y gweddill mae Heini Gruffudd, Ruth Dennis-Jones, y diweddar Brinley Roberts, y diweddar Tyssul Lewis a'i wraig, John Thomas, y diweddar Parch F.M. Jones, Kevin Fox a'r diweddar Hywel Lloyd.



GIGS CYMRAEG ABERTAW

Yn dilyn diwedd y cyfnod Covid caeth, mae Ty Tawe wedi dod yn fwrwm o weithgareddau.

Mae'r boreau coffi Sadwrn wedi ailgychwyn, ac mae'r Fenter Iaith wedi trefnu nifer o digwyddiadau.

Mae Menter Iaith Abertawe yn awr wedi trefnu rhaglen o gigiau Cymraeg ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Bydd y perfformiadau canlynol yn Nhy Tawe:

29 Ebrill: MR + SYBS

ysgrifenedig trwy ffurflen gais yn y lle cyntaf ac yna mewn cyfweiliad i'r rhai sy'n cyrraedd rhestr fer.

Am ffurflen gais a/neu fanylion pellach, cysyllter â

post@dramaabertawe.com

Mae yna dudalen ar facebook hefyd i hybu'r ysgoloriaeth, sef

www.facebook.com/dramaabertawe/

sy'n cynnwys mwy o fanylion a gwybodaeth am enillwyr y gorffennol.

Y dyddiad cau am geisiadau yw 30 Mehefin 2022.

30 Ebrill: Ani Glass + Eädyth + Bitw
5 Mai: N'famady Kouyate a Danielle Lewis



Mae modd cael tocynnau (am £5) trwy fynd i wefan:

<https://buff.ly/3y9597H>

Mae Ty Tawe'n edrych ymlaen hefyd at groesawu dosbahiadu dysgwyr yn ol i'r ganolfan, ar ôl dwy flynedd absenoldeb.

SUT I GADW WILIA, PAPUR CYMRAEG ABERTAWE?

Bydd rhai o swyddogion Wilia yn cwrdd â rhai o Fenter Iaith Abertawe ddechrau mis Ebrill i drafod dyfodol y papur.

Fel y nodwyd yn Wilia'r mis diwetha, mae'r golygyddion presennol yn rhoi'r gorau i'r gwaith erbyn diwedd yr haf, ar ol rhwng 25 a 45 o flynyddoedd yr un wrth y llyw.

Beth yw'r posibiladau i Wilia o hynny ymlaen?

1. Y papur yn dod i ben.
2. Cael criw newydd i ofalu am y papur fel y mae.
3. Newid i fod yn wefan, a all gael ei diweddar'u'n ddyddiol
4. Newid i fod yn bapur ar y we, a all gael ei ddsbarthu'n ddigidol hefyd.
5. Rhai eitemau lleol ar wefan Bro360, gwefan genedlaethol.
6. Cyfuniad o'r uchod.

Heblaw am y dewis cyntaf, bydd y dewisiadau eraill yn golygu gwaith i bwy bynnag fydd yn derbyn y cyfrifoldeb.

Un peth da yw bod Wilia mewn sefyllfa ariannol dda. Diolch i ymdrechion yn y blynyddoedd diwethaf i gynhyrchu Calendr Abertawe, yn ogystal â pheth arian gwerthiant a hysbysebion a chefnogaeth, a chyfraniad blynyddol o ryw £1,700 gan Lywodraeth Cymru, mae gan Wilia ragor na £5,000 yn y coffrau.

Gall hyn fod yn ddigon i gyflogi rhywun am ddiwrnod neu ddau y mis, er ei bod yn werth nodi bod criw Wilia ar hyd y blynyddoedd wedi gwneud eu gwaith yn gwbl wirfoddol.

Os oes gan rai ohonoch syniadau, neu os gan rai ohonoch ddi-ddordeb mewn bod

yn rhan o Wilia'r dyfodol, mae croeso mawr ichi anfon nodyn at Wilia: wilia@hotmail.co.uk

Ar hyd y blynyddoedd mae Wilia wedi cael cefnogaeth hael ysgolion cyfun



Cymraeg Abertawe ac ysgolion Cymraeg Bryn-y-môr, Lôn-las a Login Fach.

Mae Wilia hefyd wedi cael cefnogaeth hael gan Gymdeithas Gymraeg Treforys, ac wedi cael ei werthu mewn cymdeithasau eraill a chapel.

Mae Wilia hefyd wedi cael ei werthu'n gyson yn Siop Ty Tawe a Swyddfa'r Post yn Sgeti.

Yn ystod y cyfnod Covid cafodd Wilia ei gynhyrchu am nifer o fisoedd ar ffurf ddigi-

dol. Roedd hyn yn golygu bod modd cynnwys unrhyw nifer o ddalennau, yn hytrach na'r 8 sy'n cael eu hargraffu'n fisol.

Gall hyn fod yn bosibilrwydd ar gyfer

y dyfodol.

Ar hyd y blynyddoedd mae Wilia wedi cael cefnogaeth nifer helaeth o gyfranwyr, gan gynnwys ysgolion, colegau, cymdeithasau ac unigolion.

Cafodd lle amlwg ei roi i ddiwyddiadau Cymraeg Abertawe a'r cylch, ac i ddatblygiad addysg Gymraeg.

Erbyn hyn caiff Wilia ei ddsbarthu'n ddigidol i ryw 100 o gyfranwyr, ac mae Wilia ar gael i'w weld yn fisol ar wefan Menter Iaith Abertawe.

Gobaith criw presennol Wilia yw y bydd modd i Wilia barhau ar ryw ffurf neu'i gilydd.

Mae Wilia ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn fodd i glymu gwahanol elfennau'r byd Cymraeg yn Abertawe at ei gilydd, gan roi sylw i bobl ifanc a dysgwyr.

Mewn dinas lle mae'n anodd dod o hyd i'r byd Cymraeg—mor wahanol i Gaerdydd—mae Wilia wedi bod yn ddolen ddefnyddiol i weithgareddau, i gymdeithasau ac i bobl.

MARW DELYTH REES

Bu farw Delyth Rees, gwraig y Parch Ivor Rees, ar ôl rhai misoedd o salwch. Roedd Delyth yn aelod amlwg o sawl cymdeithas Gymraeg yn Abertawe.

Bydd gair o gofiant yn Wilia'r mis nesaf.

SIOP TY TAWE: AR AGOR Dydd Mawrth i Ddydd Gwener 10-5, Dydd Sadwrn 10—2



Y FENTER IAITH YN YR ARENA

Bu'r Fenter Iaith yn yr arena newydd yn Abertawe ddiwedd Mawrth, yn arddangosfa 4th the Region, i ddarparu Gwybodaeth am y Gymraeg yn Abertawe ac am weithgareddau'r Fenter Iaith.

Bu'r Fenter Iaith hefyd yn cymryd rhan yn wythnos y glas, Coleg Dewi Sant Abertawe, gan roi gwybodaeth i'r myfyrwyr newydd am Dy Tawe a'r Gymraeg yn y ddinas.

